



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales



Gwneud De a Gorllewin Cymru yn fwy gwyllt

Ein strategaeth newydd ar gyfer 2020-2030

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn cwmpasu bron i hanner Cymru – o Gaerdydd i Geredigion. Mae'r dirwedd yn amrywiol, gyda mynyddoedd a rhostiroedd, coetiroedd a glaswelltiroedd, llynnoedd ac afonydd. Mae ein harfordir yr un mor bwysig: clogwyni garw, ynysoedd, glannau tywodlyd, aberoedd, morfeydd heli, ac wrth gwrs, y môr mawr.

O bell, mae popeth yn edrych yn anhygoel. Tirwedd sy'n adlewyrchu amseroedd pan oedd ein hynafiaid yn byw'n gytûn â natur. Ond os edrychwn ni'n ofalus, mae yna bethau bach ar goll. Dydy'r dirwedd ddim fel yr oedd hi, ac mae'n bur debyg mai'r ffaith nad ydym yn byw'n hapus â natur erbyn hyn sydd wrth wraidd hynny.

Mae bywyd gwyllt Cymru mewn perygl. Mae un ym mhob chwech o rywogaethau yng Nghymru yn wynebu risg o ddiflannu. Rydyn ni'n colli rhywogaethau a chynefinoedd gwerthfawr, a hynny ar gyfradd syfrdanol. Dydy pobl ddim yn teimlo'r un cysylltiad â byd natur a mannau gwyllt lleol. Yn wir, tair awr yn unig – neu lai na hynny – y mae dros draean o oedolion Cymru yn ei dreulio yn yr awyr agored bob wythnos. Mae'r argyfwng hinsawdd yn broblem frys sy'n gwaethygu, gan beri bygythiad i bobl ac i fyd natur yng Nghymru.

Ond er yr heriau hyn, mae ein Hymddiriedolaeth Natur wedi gweld ambell gynnydd gwirioneddol dda. Mae poblogaeth y pâl ar ein hynysioedd wedi treblu ers troad y ganrif. Rydyn ni wedi ailgyflwyno llygoden bengron y dŵr i ddyfrffyrdd ar draws y rhanbarth. Rydyn ni wedi ysbrydoli miloedd o bobl i weithredu dros fyd natur a'r hinsawdd.

Ddylai llwyddiannau fel hyn ddim bod yn eithriadau. Fe ddylen nhw ddigwydd o hyd, a dyna'r nod.

Ffocws ein Hymddiriedolaeth Natur ni – a'r sbardun ar gyfer ein gwaith – fydd natur, bob tro. Os byddwn ni'n gofalu am natur, bydd natur yn gofalu amdanom ninnau. I ni oroesi fel rhywogaeth ar y blaned hon, rhaid i fywyd o bob math – bywyd dynol ac fel arall – oroesi a ffynnu.



A close-up photograph of a person's hands, wearing a blue jacket, cupped together to hold a small, dark, fuzzy caterpillar. The background is a blurred blue.

Sut rydyn ni'n gweithio

Gwerth cynhenid natur

Mewn byd lle mae gwerth byd natur yn fwyfwy cysylltiedig â'i werth i bobl, byddwn yn hyrwyddo gwerth hollbwysig bywyd gwyllt.

Iechyd a llesiant

Mae iechyd a lles ein gweithwyr yn bwysig i ni. Rydyn ni'n ceisio meithrin diwylliant iach ar bob lefel o'n sefydliad.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydyn ni wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ein sefydliad ac yn ein gwaith gydag eraill.

Allbynnau a canlyniadau

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan allbynnau a chanlyniadau, gan ganiatáu i'n staff weithio'n hyblyg a defnyddio eu cryfderau i gyflawni pob nod. Rydyn ni'n meithrin ymddiriedaeth ac ymreolaeth i ganiatáu i bawb weithio i'w botensial llawn.

Yr iaith Cymraeg

Byddwn yn annog ac yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, yn ogystal â staff sy'n siarad Cymraeg ond sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith, i barhau i ddatblygu'n broffesiynol.

Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn rhan sefydlog ac annatod o'n gwaith. Rydyn ni'n croesawu gwirfoddolwyr ac yn eu hannog i gyfrannu at weithgareddau'r sefydliad ar bob lefel.



Ein strategaeth

Mae ein strategaeth yn mynd law yn llaw â strategaethau'r Ymddiriedolaethau Natur ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Mae'n adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd rydyn ni'n eu rhannu gyda'r Ymddiriedolaethau Natur eraill, ond mae hefyd yn ystyried ein safbwynt a'n buddiannau lleol. Rydyn ni wedi mabwysiadu'r strwythur a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru ar gyfer ein strategaeth.

Mae ein strategaeth hefyd yn cynnwys ymdrechion cadwraeth cenedlaethol a byd-eang. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad y DU i ddiogelu 30% o dir a môr ar gyfer natur erbyn 2030. Mae hyn yn cefnogi'r targed byd-eang o 30 erbyn 30 y cytunwyd arno yn Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) yn 2022.

Ein gweledigaeth

Rydyn ni am fynd i'r afael â'r argyfwng sy'n wynebu natur a'r hinsawdd, yn ogystal â'r pellter cynyddol rhwng cymdeithas a byd natur. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod, sy'n cyd-fynd â strategaeth yr Ymddiriedolaethau Natur.



1. Gweithredu ar gyfer natur: 30% o dir a môr yn cael ei reoli ar gyfer natur erbyn 2030. Rydyn ni am weld adferiad byd natur, gyda phrosesau naturiol a bywyd gwylt o bob math yn ffynnu.

2. Gweithredu gyda phobl: bydd mwy o bobl, o gefndiroedd mwy amrywiol, yn cymryd camau ystyrlon dros natur a'r hinsawdd. Rydyn ni am weld gwell penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer yr amgylchedd ar lefel leol a chenedlaethol.

3. Gweithredu ar yr hinsawdd: annog atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang. Rydyn ni am weld natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

1 Gweithredu ar gyfer Natur

Ein nod: 30% o dir a môr yn cael ei reoli ar gyfer natur erbyn 2030.

Mae un ym mhob chwe rhywogaeth yng Nghymru ar drengi, ac mae dyfodol bywyd gwyllt a oedd yn gyffredin ar un adeg yn ansicr. Mae 73 o rywogaethau wedi marw allan rhwng y 1970au a 2019. Mae'n hanfodol ein bod yn helpu i sicrhau adferiad natur heddiw.

Ar hyn o bryd, mae 12% o dir Cymru wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae 69% o foroedd Cymru yn Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae dynodiadau'n hanfodol er mwyn diogelu ein bywyd gwyllt mwyaf bregus, ond rhaid eu rheoli'n iawn i gael statws cadwraeth ffafriol.

Dyma ganfyddiadau adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru, 'Asesiad gwaelodlin safleoedd gwarchodedig 2020', sy'n nodi cyflwr nodweddion bywyd gwyllt mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:

- 24% o'r nodweddion – ffafriol
- 44% o'r nodweddion – cyflwr anffafriol
- 36% o'r nodweddion – ddim mewn cyflwr dymunol

(Nodyn: mae'r categori olaf, 'ddim mewn cyflwr dymunol', yn gamarweiniol. Nid ydym yn gwybod beth yw statws y nodweddion hyn. Os nad oes tystiolaeth i'r gwrthwyneb, rhaid i ni dybio bod y nodweddion hyn yn anffafriol.)



Rydyn ni am weld dyfodol lle mae bywyd gwyllt yn doreithiog, yn wydn ac yn ddiogel. Rydyn ni am weld cynefinoedd helaeth, a'r rheini'n gysylltiedig â'i gilydd. Rydyn ni am weld tirweddau a moroedd gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu.

Dyma gasgliad asesiadau o gyflwr ar gyfer nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2025. Allan o 85 o asesiadau o nodweddion cynefinoedd a bywyd gwyllt:

- 38% o'r nodweddion – ffafriol
- 55% – cyflwr anffafriol
- 7% – ddim yn gwybod beth oedd y cyflwr

Rhaid i ni newid hyn fel bod y glorian yn symud o golled i adferiad. Er mwyn creu rhwydwaith ecolegol cydlynol a gwydn, mae angen mwy o leoedd arnom ar gyfer natur – lleoedd mwy, lleoedd gwell a lleoedd mwy cydgysylltiedig. Ein nod yw sicrhau bod o leiaf 30% o dir Cymru yn cael ei warchod, ei gysylltu a'i reoli'n gadarnhaol ar gyfer natur. Dim ond Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n adfer fydd yn rhan o'r targed 30%.

Gweithio gyda natur, gan alluogi prosesau naturiol gyda'r ymyrraeth leiaf bosibl, yw'r ffordd fwyaf sicr o helpu natur i ffynnu unwaith eto.

Mae angen i bethau newid ledled Cymru, yng nghefn gwlad ac mewn pentrefi, mewn trefi a dinasoedd, i greu lleoedd sy'n well i bobl ac i fywyd gwyllt. Rydyn ni am roi'r cyfle gorau i fywyd gwyllt lle bynnag a phryd bynnag y gallwn. Nid oes angen i bopeth fod ym mhobman, ond rhaid bod lle i bopeth yn rhywle.

Rydyn ni am i ffermio fod yn rhan flaenllaw o newidiadau i yrru adferiad natur. Mae ffermio sy'n natur-gyfeillgar yn adfer ac yn diogelu priddoedd gwerthfawr, gan roi cyfle i fywyd gwyllt, a chyfrannu at ddyfodol sy'n fwy iach ac yn fwy llewyrchus i bob un ohonom.

Ein blaenoriaethau pennaf

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Gweithio tuag at reoli ein holl warchodfeydd natur yn gynaliadwy,** ar gyfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd y maent yn eu cynnal. Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn gweithio gyda natur, gan ymyrryd cyn lleied â phosibl, i roi cyfle i brosesau naturiol gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
- **Gweithio tuag at sicrhau bod holl nodweddion gwarchodedig ein gwarchodfeydd yn cael statws cadwraeth 'ffafriol' neu 'yn adfer'.**
- **Defnyddio ein gwarchodfeydd natur fel esiampl** i hyrwyddo'r cyfraniad y mae tir gwarchodedig yn ei wneud i gadwraeth.
- **Datblygu prosiectau mawr i adfer cynefinoedd** er mwyn helpu i greu lleoedd mwy, lleoedd gwell a lleoedd mwy cydgysylltiedig ar gyfer natur ar y tir ac yn y môr.
- **Cynnal gwaith monitro, cofnodi a rheoli sy'n seiliedig ar dystiolaeth.**
- **Nodi a mapio ardaloedd i'w hadfer.**
- **Defnyddio dull strategol i gael gwarchodfeydd newydd.** Gan ddefnyddio ein proses gaffael, byddwn yn dod o hyd i gyfleoedd i gynyddu ein gwarchodfeydd presennol a'u cryfhau.
- **Datblygu canllawiau polisi ffurfiol ar gyfer cynllunio a rheoli ein gwarchodfeydd natur.**
- **Ymgymryd â gwaith i achub rhywogaethau prin,** mynd ati i ailgyflwyno gan ddilyn canllawiau, a hyrwyddo adferiad rhywogaethau a chynefinoedd mwy cyffredin.
- Cynghori ffermwyr a thirfeddianwyr ac **eiriol yn gryfach dros ffermio er budd bywyd gwyllt,** gan gyfleu bod llai yn golygu mwy i fyd natur.
- **Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol** ar ein tir ein hunain drwy atal a rheoli.
- **Bod yn ddoeth wrth reoli coed heintiedig,** gan dorri coed sy'n peri bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd yn unig.





Byddwn yn ffurfio partneriaethau newydd i yrru adferiad natur yn ei flaen. Bydd ein cynlluniau a'n penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gadarn.

Llygoden Bengron y Dŵr © Terry Whittaker/2020VISION

Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaethau Natur a phartneriaid eraill, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Cyfrannu at wella prosesau monitro bywyd gwyllt yng Nghymru.** Bydd hyn yn helpu i gynyddu ein gwybodaeth gyffredin a'n gallu i roi cyngor a chyfeirio at adnoddau priodol.
- **Cynyddu ein gallu ar y cyd i amddiffyn rhag gweithgareddau anghynaliadwy** yn y môr. Byddwn yn galw am fwy o ddiogelwch i rywogaethau morol ac yn eiriol dros reoli ein hardaloedd morol gwarchodedig.
- **Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chofnodi rhywogaethau estron goresgynnol.** Byddwn yn dylanwadu ar bolisi er mwyn cael system effeithiol i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- Datblygu cyfres o bolisiau a datganiadau sefyllfa sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn sicrhau dull cydlynol o ymdrin â'r heriau sy'n wynebu bywyd gwyllt yng Nghymru.
- **Parhau i weithio gyda phrifysgolion** a datblygu astudiaethau achos o'n prosiectau. Bydd ein data a'n hymchwil yn cyfrannu at ddatblygu arferion da ym maes cadwraeth. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn llywio deddfwriaeth a pholisi i ddiogelu byd natur a lleoedd gwyllt.
- **Cydweithio i roi ymateb Cymru gyfan i seilwaith cenedlaethol a chynlluniau datblygu mawr.**
- Eiriol ac **ymgyrchu dros rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig** ar y môr ac ar y glannau.
- **Lobïo Llywodraeth Cymru am ymrwymiad wedi'i gyllido i'r mesurau a nodwyd yn y Cynlluniau Megaffawna Morol a Chadwraeth Adar Môr.**
- **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol** i sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn adferiad natur. Rydyn ni am weld hyn drwy fuddsoddi, arweinyddiaeth a gosod targedau ar gyfer adferiad natur.
- **Galw ar awdurdodau lleol i gydnabod yr argyfwng ecolegol yn gyhoeddus.** Rydyn ni am weld mwy o seilwaith gwyrdd a mannau cymunedol gwyrdd naturiol hawdd cael mynediad atynt. Byddwn yn ceisio atal datblygiadau sy'n niweidio bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol.

Byddwn yn cefnogi'r Ymddiriedolaethau Natur a phartneriaid eraill gyda'r canlynol, ond ni fyddwn yn cymryd rhan arweiniol:

- **Monitro dyletswydd cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru** i adrodd yn ôl am eu gwaith i adfer natur. Os nad yw hyn yn ddigonol, byddwn yn llais dros natur drwy ymgyrchoedd a drwy ddatblygu astudiaethau achos i ddangos arferion da a drwg.
- Ymgyrchu dros bolisïau pysgodfeydd sy'n sicrhau rheolaeth gynaliadwy a chadwraeth ecosystemau morol. Byddwn yn **cefnogi newid teg i'r diwydiant pysgota, gan ganolbwyntio ar arferion cynaliadwy** a diogelu'r amgylchedd.
- **Ymgysylltu â Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru** i'w helpu i gyflawni ei hamcanion.
- Gweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr yn y DU i **ddylanwadu ar lywodraethau datganoledig a San Steffan**. Byddwn yn meithrin dealltwriaeth well o ddatganoli o fewn mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur.
- **Sicrhau mai adferiad natur yw ffocws sylfaenol taliadau rheoli tir yng Nghymru.**
- **Ymgyrchu i sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol** yn cael ei integreiddio mewn datblygiadau economaidd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Eiriol dros bolisïau newydd ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd** sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Bydd hyn yn cynnwys mesurau newydd i leihau pwysau fel mynd i'r afael â llygredd.
- **Bod yn llais dros natur.** Byddwn yn ymgyrchu gydag eraill i wahardd plastigau untro a lleihau defnydd o blastigau eraill, lleihau defnydd o blaladdwyr, a gwahardd defnyddio compost wedi'i wneud o fawn.





2 Gweithredu gyda phobl

**Ein nod: bydd mwy o bobl, o
gefndiroedd mwy amrywiol, yn
cymryd camau cadarnhaol dros
natur a'r hinsawdd yn Ne a
Gorllewin Cymru erbyn 2030.**

Mae pobl yn rhan o natur ac yn allweddol i adferiad natur. Os ydym am adfer natur ar raddfa fawr, gwyddom fod angen i lawer mwy o bobl fod â diddordeb ym myd natur ac yn gysylltiedig ag ef. Rhaid i ni weithredu heddiw i ysbrydoli'r newid hwnnw a gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd.

Mae ymchwil wedi dangos bod angen cefnogaeth o leiaf 25% o boblogaeth ar gyfer unrhyw newid cymdeithasol ar raddfa fawr. Fel rhan o'n gwaith, rydyn ni'n anelu at weld un ym mhob pedwar unigolyn yn cymryd camau ystyrlon dros adferiad natur ar draws De a Gorllewin Cymru.

Credwn fod gan bawb yr hawl i gael mynediad at fyd natur ac i'w fwynhau. Gwyddom fod amser a dreulir ym myd natur yn gwella safon bywyd yn sylweddol. Os bydd cysylltiad â natur yn cael ei golli, gall ein hiechyd a'n lles ddirywio. Ein nod yw creu mannau diogel a chynhwysol sy'n helpu pobl i feithrin cysylltiad gwell â byd natur, ac y bydd hyn yn ei dro yn eu hysbrydoli i weithredu i'w ddiogelu.



Ein blaenoriaethau pennaf

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Croesawu egwyddorion a thechnegau trefnu cymunedol**, drwy'r dull 'Tîm Gwyllt', i roi'r grym i gymunedau weithredu dros natur a'r hinsawdd. Byddwn yn rhoi'r sgiliau, yr hyder a'r llais i bobl gymryd camau ystyrlon dros adferiad natur.
- **Cryfhau ein hymrwymiad i rymuso pobl o bob hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu i werthfawrogi byd natur, ei fwynhau a gweithredu drosto.** Byddwn yn rhagweithiol wrth geisio arweiniad gan y cymunedau hyn i ddeall y rhwystrau sy'n bodoli rhwng unigolion a'r byd naturiol. Byddwn yn gweithio tuag at y newidiadau yr hoffent eu gweld.
- **Ennyn diddordeb a chefnogi pobl ifanc ledled ein rhanbarth.** Byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am fyd natur ac ymgysylltu ag ef, gan feithrin ymdeimlad o berthyn. Byddwn yn eu grymuso i ddod yn hyrwyddwyr amgylcheddol, arweinwyr cymunedol ac ymgyrchwyr y dyfodol.
- **Creu rhwydwaith deinamig o wirfoddolwyr**, gan helpu i adeiladu cysylltiadau rhwng gwahanol genedlaethau a chymunedau.
- **Datblygu sgiliau hanes naturiol** a hyrwyddo cyfleoedd i ddinasyddion fod yn wyddonwyr i helpu i fonitro cyflwr natur yn lleol.
- Dathlu ac **arddangos sut mae pobl yn helpu natur i adfer** ar y tir ac yn y môr, gan rannu straeon i ysbrydoli eraill.
- **Atgyfnerthu partneriaethau sy'n bodoli'n barod a chreu rhai newydd.** Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill, rheolwyr tir, busnesau, a gwneuthurwyr penderfyniadau sydd wedi ymrwymo i adferiad natur.
- **Amrywio ffyrdd y gall pobl ymgysylltu â ni a'n cefnogi** er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chael mwy o gefnogwyr.
- **Meithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o fywyd gwyllt** yn Ne a Gorllewin Cymru, er mwyn ysbrydoli cysylltiad dyfnach â'r byd naturiol.



Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaethau Natur a phartneriaid eraill i gefnogi polisiâu, strategaethau ac ymgyrchoedd ehangach. Gyda'n gilydd, byddwn yn hybu lleisiau a gweithredoedd y bobl a'r cymunedau yn ein rhanbarth.




3 Gweithredu dros yr hinsawdd

Ein nod: annog atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn broblem frys, ac mae hi'n gwaethygu. Mae digwyddiadau tywydd mwy eithafol – llifogydd, tanau gwyllt, gwres mawr a sychder – yn dod yn fwy cyffredin yng Nghymru a ledled y byd. Rydyn ni eisoes yn gweld effaith drychinebus hyn ar fywyd gwyllt ac ar bobl. Natur sydd wedi rheoli hinsawdd y byd ers miliynau o flynyddoedd, ond heddiw mae un rhywogaeth, sef dynoliaeth, yn chwalu'r cydbwysedd.

Mae'r atebion ym myd natur. Gall datrysiadau sy'n ymwneud â natur ddarparu tua thraean o'r gwaith lliniaru cost-effeithiol sydd ei angen ar gyfer yr hinsawdd rhwng nawr a 2030 i sefydlogi'r cynhesu i lai na 2°C, gan fynd i'r afael â'r argyfwng ecolegol ar yr un pryd.

Bydd ein Hymddiriedolaeth yn rhoi blaenoriaeth i adfer cynefinoedd sy'n dal ac yn storio carbon. Mae hyn yn cynnwys cynefinoedd morol, mawndiroedd, glaswelltiroedd a choetiroedd. Fodd bynnag, ni allwn fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ar ein pennau ein hunain. Mae atebion yn dibynnu nid yn unig ar weithredu lleol, ond ar newid trawsnewidiol ehangach ar draws y gymdeithas.

A photograph of a lush forest with tall, slender trees. Sunlight filters through the dense canopy, creating a bright starburst effect in the upper center. The ground is covered with ferns and moss. The overall tone is warm and natural.

Ein blaenoriaethau pennaf

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu a mabwysiadu safbwynt moesegol cyffredin i **leihau ein heffaith ar yr amgylchedd lle bynnag y bo modd.**
- Cyfrifo ein hól troed carbon. Byddwn yn **datblygu strategaeth lleihau carbon a chynllun gweithredu** i leihau ein hól troed carbon i'r graddau y mae technoleg ac arian yn caniatáu erbyn 2030.



Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaethau Natur a phartneriaid eraill, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Ymgyrchu dros gydnabod effeithiau newid hinsawdd** ar natur ar y tir ac yn y môr. Byddwn hefyd yn ymgyrchu i amlygu rôl datrysiadau sy'n seiliedig ar natur wrth liniaru newid hinsawdd.
- Bod yn glir ynghylch sut rydyn ni'n ymdrin â gwrthbwysu carbon a chyllid natur. Byddwn yn ceisio **cymryd rhan mewn prosiectau sy'n chwilio am atebion sy'n seiliedig ar natur** lle maent yn helpu i gyflawni ein strategaeth.
- **Eiriol dros ddiwygio'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth**, gan gydnabod sut y gall systemau ffermio fod o fudd i natur a'r hinsawdd. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at arferion gwael yn y sector amaeth a choedwigaeth.

Byddwn yn cefnogi'r Ymddiriedolaethau Natur, a phartneriaid eraill, gyda'r canlynol, ond ni fyddwn yn cymryd rhan arweiniol:

- Dadlau bod unrhyw ddefnydd o dir sy'n derbyn cymhorthdal sydd â'r nod o fynd i'r afael â newid hinsawdd hefyd yn cyfrannu at adferiad natur.

Adnoddau

Hyn a hyn o adnoddau sydd gennym, ac mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol. Rydyn ni wedi ymrwymo i gael incwm cynaliadwy ac anghyfyngedig i gyflawni'r strategaeth hon.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Adolygu a **gwella sut rydyn ni'n cynhyrchu incwm anghyfyngedig** o dair prif ffynhonnell. Mae hyn yn cynnwys incwm elusennol, incwm aelodaeth ac incwm o godi arian, yn ogystal ag incwm drwy ein cangen fasnachu, DWT Enterprises, sy'n cynnwys ein caffis, ein siopau a'n llety i ymwelwyr. Byddwn yn datblygu cynllun wedi'i gostio a'i flaenoriaethu ar gyfer gwelliannau.
- **Ymchwilio i ffynonellau incwm newydd posibl.**
- Datblygu achosion ar gyfer cymorth i wneud yn siŵr **bod ceisiadau am grantiau'n canolbwyntio ar y prosiectau gorau i gyflawni ein strategaeth.**
- Canolbwyntio ar **gynnal y lefelau presennol o gryfder ariannol a gweithredol.** Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn un o'r partneriaid uchaf eu parch ar gyfer ein gwaith ac y gallwn fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd.





Staff

Tîm bach sydd gennym, o'i gymharu ag Ymddiriedolaethau Natur eraill sy'n rheoli ardal o faint tebyg. Rydyn ni'n dibynnu ar ein staff i fod yn hyblyg ac i feddu ar lawer o sgiliau er mwyn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau. Drwy gydol y cyfnod o adferiad ariannol, fe wnaethom leihau costau staff cymorth a chadw costau staff rheoli ar yr un lefel. O ganlyniad, mae cyflogau staff a chyfraniadau pensiwn wedi syrthio y tu ôl i rai Ymddiriedolaethau Natur eraill. Mae'r anghydraddoldeb hwn wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Byddwn yn buddsoddi yn ein staff ac yn cydnabod pwysigrwydd staff fel ein hased pwysicaf er mwyn sicrhau ein bod yn dal gafael ar staff da.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ymrwymo i **gynyddu cyfraniadau pensiwn a chyflogau** i lefelau cyfartalog yr Ymddiriedolaethau Natur fan leiaf erbyn 2030.
- Dal ati i **rymuso a hyrwyddo lles pob aelod o staff**. Byddwn yn creu diwylliant agored a chefnogol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ysbrydoliaeth a gofal gennym.
- **Buddsoddi mewn staff drwy gyfleoedd hyfforddi**. Bydd ein staff yn teimlo'n hyderus ac yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein strategaeth.



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Nature Centre
Tondu
Bridgend
CF32 0EH

Rhif elusen gofrestredig: 1091562

Cadwch lygad ar ein taith i greu De a
Gorllewin Cymru fwy gwyllt:



@wildlifetrustsww



@WildlifeTrustSouthandWestWales



@wtsww.bsky.socials



@wtsww



www.welshwildlife.org

